# Gwirfoddolwyr Casgliadau
# Amgueddfa Lechi Cymru – Canolfan Casgliadau, Llandygai

**Pwrpas y rôl:** Mae Amgueddfa Lechi Cymru yn cael ei hailddatblygu. Er mwyn gwarchod a gofalu am y casgliad, mi gafodd ei symud i'r Ganolfan Casgliadau newydd yn Llandygai, lle 'da ni wrthi'n gofalu am mowldiau neu patrymau pren ddaw o Gilfach Ddu. Ydych chi eisiau helpu ein Cadwraethydd Patrymau newydd? Fel gwirfoddolwr o dan eu goruchwyliaeth, byddwch yn helpu i:

- tynnu llwch a baw, gan ddefnyddio brwsys a/neu sugnwyr llwch yn bennaf,
- lapio gwrthrychau/arteffactau mewn papur sidan a'u pacio mewn bocsys,
- gofnodi cyflwr y patrymau,
- gynnal ein cofnodion a'n catalogau casgliadau.

**Lleoliad:** Llandygai, Bangor

**Oedran:** 16+

**Adran:** Casgliadau ac Ymchwil

**Dyddiad Cau :** Recriwtio parhaus

**Mae'r rôl yn addas i berson:**

- sydd eisiau profiad ymarferol o drin a glanhau gwrthrychau a chasgliadau,
- sy'n mwynhau tasgau/projectau sydd â dechrau a diwedd,
- sy'n hapus i wisgo menig, masg a chyfarpar diogelu personol arall wrth wirfoddoli.

**Ystyriaethau:** Darperir hyfforddiant ac asesiadau risg. Gall rhai tasgau fod yn ailadroddus/myfyriol – er cewch ddigon o egwyliau. Gall y Ganolfan Gasgliadau fod yn ofod oer/poeth. Ni allwn amcangyfrif pa mor hir y bydd y project hwn yn rhedeg, ond byddwn yn rhoi gwybod i chi ymlaen llaw os ydym yn cyrraedd ei ddiwedd – mae dros 4000 o batrymau pren!

**Oriau ac Ymrwymiad:** Dyddiau Mercher 1-4PM **neu** Iau 10AM-1PM. Sesiwn anwytho nesaf: 4 Awst 2026, 10AM-12PM.

**Diddordeb?** Cwblhewch y ffurflen gofrestru a'i hanfon at gwirfoddoli@amgueddfacymru.ac.uk neu ffonio 029 2057 3002.

Mae croeso i chi gysylltu â ni yn Gymraeg, byddwn yn eich ateb yn Gymraeg ac ni fydd hyn yn arwain at oedi.

Y buddion i'n girfoddolwyr:
- treuliau teithio;
- gostyngiad yn ein siopau, caffis, cyrsiau ac arddangosfeydd;
- geirda ar gais;
- nifer o ddigwyddiadau dathlu a mynediad tu ôl i'r llenni;
- cyfle i gyfarfod pobl newydd.

